

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol gynhaliwyd 5 Medi 2016 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc.

Presennol:

Cyng. Ann Stokoe (*Cadeirydd*)
Cyng. Huw Jones
Cyng. Lyn Jones
Mrs Hildreth Owen (*Clerc*)

Cyng. Llinos Price (*Is-Gadeirydd*)
Cyng. Des Davies
Cyng. Morris Davies
Cyng. Haydn Lewis (*aelod lleol y Cyngor Sir*)
(*cyrr. 7.50*)

- 1. Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Ann Stokoe, bawb i'r cyfarfod; croesawodd hefyd Y Rhingyll Delme Jones, sydd wedi cymryd drosodd oddi wrth Y Rhingyll Alison Rees. Gwnaeth y Rhingyll Jones gyflwyno ei hun i aelodau'r Cyngor a bu trafodaeth fer ynglŷn â dau gwyn (*gweler eitem 10(as)(vii)*). Mynychodd Mrs Llio Phillips o gyfreithwyr George, Davies a Evans y cyfarfod i drafod gweithredoedd Ystafell Berkley a hefyd ymddiriedolwyr Ystafell Berkley. Wrth i'r sgwrs ddatblygu, dywedodd Mrs Phillips fod angen iddi gysylltu gyda'r Gofrestra Tir cyn symud ymlaen. Bydd yn cysylltu eto pan ddaw rhagor o wybodaeth.
- 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y Cynghorwyr Islwyn Iago, Eurig Lloyd, Auriol Williams, Dilwyn Jenkins.
- 3. Cofnodion y cyfarfod cyffredinol blaenorol.**
Cynigiwyd gan y Cyng. Llinos Price ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod cofnodion mis Gorffennaf yn gywir.
- 4. Datgelu buddiannau personol:** Y Cyng. Huw Jones (Rhif 7 Cais A160692, Clwb Golff Aberteifi)
- 5. Materion yn codi:**
 - (a) Gwifren ffôn wedi syrthio'n beryglus ger Llys y Geiniog:** Mae'r gwaith yma wedi ei gwblhau (*gweler eitem 9 rhif 143*).
 - (b) Gordyfiant ar goeden yn Patch:** Mae Mr Iestyn Evans (NRW) wedi addo y bydd y goeden yn cael ei thorri cyn gynted â phosib (*gweler eitem 9, rhif 147*). Gan fod y gwaith heb ei gyflawni, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Mr Evans unwaith eto.
 - (c) Achwyniad bod y Gymraeg yn eilradd i'r Saesneg ar ffurflen bleidleisio'r Refferendwm:** Ymateb oddi wrth Miss Bronwen Morgan (*gweler eitem 9, rhif 149*).
- 6. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**
I'w penderfynu ym mis Ebrill a mis Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	I'w drafod ym mis Hydref 2016
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	I'w drafod ym mis Hydref 2016
Ysgol Feithrin Penyparc	I'w drafod ym mis Hydref 2016
Papur Bro "Y Gambo"	I'w drafod ym mis Hydref 2016
Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc	£50
Shelter Cymru	I'w drafod ym mis Hydref 2016
Elusen Amaethyddol, "Royal Agricultural Benevolent Institution	I'w drafod ym mis Hydref 2016
Age Cymru Ceredigion	I'w drafod ym mis Hydref 2016
Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion	I'w drafod ym mis Hydref 2016

(*Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais*)

7. Cynllunio

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau'r Cyngor
A160603	Enlli, Felinwynt, "Proposed Agricultural Storage Shed"	Nid oedd gan y Cyngor un gwrthwynebiad

Anfonwyd y sylwadau uchod at y Cyngor Sir ar 28 Gorffennaf.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau'r Cyngor</i>
A160637	Pant-y-dŵr, Penyparc "Removal of condition 4 of A41225 for use of outbuildings as self-contained dwellings"	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad
A160586	Wyn y Môr, Gwbert "Erection of an extension and associated works"	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad
A160660	Arosfa, Tremain "Extension to existing workshop"	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad

Anfonwyd y sylwadau uchod at y Cyngor Sir ar 2 Awst 2016

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau'r Cyngor</i>
A160666	Outbuildings adjacent to Bolafron, Ferwig: "Conversion of 3 no. outbuildings to 4 no. holiday units"	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad

Anfonwyd y sylwadau uchod at y Cyngor Sir ar 15 Awst 2016

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau'r Cyngor</i>
A160713	"Cadwgan, Tremain: Extension to dwelling to form Garage/Workshop"	Nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad.

Anfonwyd y sylwadau uchod at y Cyngor Sir ar 22 Awst

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau'r Cyngor</i>
A160692	Cardigan Golf Club, Gwbert "The erection of a covered driving range building to serve an existing driving range facility"	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad
A160756	Llain-y-Mwnt, Ferwig "Proposed extension"	Nid oes gan y Cyngor unrhyw wrthwynebiad

Penderfyniad y Cyngor Sir:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau'r Cyngor Sir</i>
A160523	Greenfield, Penyparc "Erection of two storey replacement extension to rear of dwelling"	Mae'r cais wedi ei ganiatáu.

8. Biliau wedi eu talu:

Cyflog y Clerc (Gorffennaf 2016)	101546	£302.72
Costau'r Clerc (Gorffennaf 2016)	101547	£38.26
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Gorffennaf 2016)	101548	£75.60
Cyflog y Clerc (Awst 2016)	101549	£302.72
Costau'r Clerc (Awst 2016)	101550	£42.00
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Awst 2016)	101551	£75.60
Lewlec (Gwaith Trydanol yng Nghanolfan Ieuenctid Penyparc)	101552	£780.60
Mr John Morris (Trasio llwybrau am 2016)	101553	£844.80

Cynigiwyd gan y Cyng. Morris Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Huw Jones bod y biliau uchod yn cael eu talu.

Materion ariannol eraill: Derbyniwyd Aroddiad Blyneddol cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn 2015-16 yn ôl oddi wrth Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi eu harchwilio gan gwmni Grant Thornton UK. Cyflwynwyd hwy i'r Cyngor ynghyd â'r argymhellion a nodwyd yn y llythyr.

Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies bod y Cyngor yn derbyn yr Adroddiad.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

9. Gohebiaeth

140	Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Ceredigion	Poster "Dewch yn Warchodwr Plant Cofrestredig Sir Ceredigion"	Mae'r Clerc wedi arddangos y poster yn hysbysfwrdd Gwbert.
141	Mrs M. Davies, Preseli View, Brynawelon, Penyparc	Llythyr o achwyniad ynglŷn â sŵn afreolus yn dod o'r "Colour Festival" a gynhaliwyd yn Penyparc ar 3 Gorffennaf.	Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr at Mrs Davies yn cydymdeimlo â'i theimladau.
142	Cyngor Tref Aberteifi	Llythyr yn gwahodd dau gynrychiolydd o Gyngor y Ferwig i gyfarfod gyda Chomisynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, Dafydd Llywelyn, nos Fawrth, 1 Tachwedd yn Swyddfa'r Cyngor, 36 Pendre, Aberteifi am 6.00yh.	Mae'r Cyng. Ann Stokoe yn bwriadu mynychu'r cyfarfod.
143	Rob Connolly (Network Solutions Manager for Swansea & West Wales)	Derbyniwyd E-bost yn cadarnhau fod y wifren ffôn ger Llys y Geiniog wedi ei thrwsio.	Gweler eitem 5(a)
144	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Posteri yn hysbysu cyfres o weithdai "Sgwrs Fawr" mewn cymunedau ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.	Mae'r posteri wedi eu harddangos ar yr hysbysfyrddau.
145	Mark Williams AS	Poster o gymorthfeydd yn ystod Medi a Hydref.	Mae'r posteri wedi eu harddangos ar yr hysbysfyrddau.
146	Grant Thornton, Archwilydd Cyffredinol Cymru	Derbyniwyd Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn ariannol 2015-16 wedi ei gofrestru gan yr archwilydd.	Mae'r "Hysbysiad o Gwblhau'r Archwiliad" am y flwyddyn gyfrifon a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 wedi ei arddangos ar yr hysbysfyrddau am 14 diwrnod o 31 Awst 2016.
147	Mr Iestyn Evans, Uwch Reolwr Gwarchodfeydd, Cyfoeth Naturiol Cymru	E-bost yn cadarnhau y bydd y goeden yn Patch yn cael ei thorri	Gweler eitem 5(b)
148	Age Cymru Ceredigion	Cais am gymorth ariannol	I'w drafod yng nghyfarfod mis Hydref
149	Miss Bronwen Morgan (Prif Weithredwr)	Ymateb i lythyr y Cyngor yn gwneud ymholiadau ynglŷn â'r ffaith fod y Gymraeg yn eilradd i'r Saesneg ar y papurau pleidleisio yn y Refferendwm	Nodwyd y llythyr.
150	Cyfeillion Amgueddfa Ceredigion	Cais am gymorth ariannol	I'w drafod yng nghyfarfod mis Hydref

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

10. Materion Eraill:

- (a) Derbyniwyd y cwynion canlynol:
- (i) Bocs halen/tywod ar Heol y Felin wedi dymchwel. Mae'r Cyngor Sir wedi datrys y broblem.
 - (ii) Carafanau wedi eu gosod ym mhentref Penyparc. Mae'r Clerc wedi gofyn am ganllawiau oddi wrth yr Adran Gynllunio ynglŷn â rheolau am osod carafanau mewn mannau pentrefol/trefol.
 - (iii) Pryder am gi wedi ymosod ar gi arall ym mhentref Penyparc. Mae'r heddlu wedi datrys y broblem
 - (iv) Gŵyl Crug Mawr. Gofynnwyd i'r Clerc anfon llythyr i longyfarch y Cyng. Richard Jones am drefnu digwyddiad llwyddiannus.
 - (v) Arwyddion "Llwybr cyhoeddus" o'r ffordd fawr i stad Dolwerdd. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Mr Nigel Nicholas unwaith eto i gyflawni'r tasg o osdo arwyddion ar y ddau ben.
 - (vi) Arwydd "30mya" yn ymyl Ystafell Berkley. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir gan ofyn i'r adran briffyrdd lanhau'r arwydd.
 - (vii) Ceisiadau i'r Rhingyll Delme Jones yn y Cyngor: Cerbydau yn teithio'n rhy gyflym ar hyd y lôn uchaf o Patch i'r Clwb Golff; modur wedi ei barcio'n rhy agos i'r groesffordd ger stad Brongwyn. Cytunodd y Rhingyll ddilyn y cwynion.

11. Dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol nesaf: 3 Hydref (F)

Cyfarfodydd y Cyngor am 2016: 7 Tachwedd (YB) 5 Rhagfyr (F)

Cyfarfodydd y Cyngor am 2017:

9 Ionawr (YB) 6 Chwefror (F) 6 Mawrth (YB)

3 Ebrill (F) 8 Mai (YB) 5 Mehefin (F) 3 Gorffennaf (YB)

4 Medi (F) 2 Hydref (YB) 6 Tachwedd (F) 4 Rhagfyr (YB)

Dynoda: F = Hen Ysgol y Ferwig YB = Ystafell Berkley CB = Cyfarfod Blynyddol

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

Minutes of the Ordinary Meeting held on 5 September 2016 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

Present

Cllr Ann Stokoe (*Chairperson*)
Cllr Huw Jones
Cllr Lyn Jones
Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

Cllr Llinos Price (*Vice Chairperson*)
Cllr Des Davies
Cllr Morris Davies
Cllr Haydn Lewis (*local member of the County Council*)
(*arr. 7.50*)

1. Chairperson's welcome.

The Chairperson, Cllr Ann Stokoe, welcomed everyone to the meeting; she also welcomed Sergeant Delme Jones who had taken over from St Alison Rees. Sgt Jones introduced himself to the council and a short discussion took place (*see item 10(a)(vii)*). Mrs Llio Phillips, solicitor with George Davies & Evans, also attended the meeting to discuss the deeds of Ystafell Berkley and also the registered list of trustees to the facility. Mrs Phillips confirmed that further information was required from the Land Registry before proceeding; she agreed to contact the Council when this would be obtained.

2. Apologies for absence: Councillors Islwyn Iago, Auriol Williams, Dilwyn Jenkins, Eurig Lloyd.

3. Minutes of the previous meeting.

It was proposed by Cllr Llinos Price and seconded by Cllr Des Davies that the minutes of the July meeting be recorded as correct.

4. Declaration of personal interests: Cllr Huw Jones (Item 7 Application A160692, Cardigan Golf Club)

5. Matters arising:

- (a) **Fallen cable near Llys y Geiniog:** This work has now been completed. (*See item 9 no. 143*).
- (b) **Overgrown Tree at Patch:** Mr Iestyn Evans (NRW) promised that this tree will be cut down as soon as possible (*see item 9, no 147*). As this work has not yet been undertaken, the Clerk was asked to contact Mr Evans once more.
- (c) **Concern that the Welsh language is secondary to English on the Referendum voting papers:**
Response from Miss Bronwen Morgan (*see item 9, no. 149*).

6. Requests for financial support.

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Hen Ysgol y Ferwig	To be discussed at the October meeting
PTA Ysgol Gymunedol Penyparc	To be discussed at the October meeting
Ysgol Feithrin Penyparc	To be discussed at the October meeting
Welsh local newspaper: "Y Gambo"	To be discussed at the October meeting
Ysgol Gynradd Gymunedol Penyparc	£50
Shelter Cymru	To be discussed at the October meeting
Royal Agricultural Benevolent Institution	To be discussed at the October meeting
Age Cymru Ceredigion	To be discussed at the October meeting
Friends of Ceredigion Museum	To be discussed at the October meeting

(Names in italics = accounts forwarded with applications)

7. Planning:

Application Number	Address & Purpose	Council's Observations
A160603	Enlli, Felinwynt, "Proposed Agricultural Storage Shed"	Council has no objection

The above observations were sent to the County Council on 28 July 2016

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

<i>Application Number</i>	<i>Address & Purpose</i>	<i>Council's Observations</i>
A160637	Pant-y-dŵr, Penyparc "Removal of condition 4 of A41225 for use of outbuildings as self-contained dwellings"	Council has no objection
A160586	Wyn y Môr, Gwbert "Erection of an extension and associated works"	Council has no objection
A160660	Arosfa, Tremain "Extension to existing workshop"	Council has no objection

The above observations were forwarded to the County Council on 2 August, 2016

<i>Application Number</i>	<i>Address & Purpose</i>	<i>Council's Observations</i>
A160666	Outbuildings adjacent to Bolafron, Ferwig: "Conversion of 3 no. outbuildings to 4 no. holiday units"	Council has no objection

The above observations were forwarded to the County Council on 15 August, 2016

<i>Application Number</i>	<i>Address & Purpose</i>	<i>Council's Observations</i>
A160713	"Cadwgan, Tremain: Extension to dwelling to form Garage/Workshop"	Council has no objection

The above observations were forwarded to the County Council on 22 August, 2016

<i>Application Number</i>	<i>Address & Purpose</i>	<i>Council's Observations</i>
A160692	Cardigan Golf Club, Gwbert "The erection of a covered driving range building to serve an existing driving range facility"	Council has no objection
A160756	Llain-y-Mwnt, Ferwig "Proposed extension"	Council has no objection

County Council's decision:

<i>Application Number</i>	<i>Address & Purpose</i>	<i>County Council's Observations</i>
A160523	Greenfield, Penyparc "Erection of two storey replacement extension to rear of dwelling"	Permission has been granted

8. Financial Matters.

Bills paid:

Clerk's wages (July 2016)	101546	£302.72
Clerk's Expenses (July 2016)	101547	£58.26
H M Customs & Excise (Clerk's Income Tax July 2016)	101548	£75.60
Clerk's Wages (August 2016)	101549	302.72
Clerk's Expenses (August 2016)	101550	£42.00
HM Customs & Excise (August 2016)	101551	£75.60
Lewlec (Electrical Work carried out at Ystafell Berkley, Penyparc)	101552	£780.60
Mr John Morris (Path Trashing for 2016)	101553	£844.80

It was proposed by Cllr Morris Davies and seconded by Cllr Huw Jones that the above bills be paid.

Other Financial Matters: The Council's Annual Accounts for the year 2015-16 have been received from the Auditor General for Wales, having been audited by Grant Thornton UK. They were presented to the Council along with recommendations that were noted in the letter.

The above report was accepted by Council. This was proposed by Cllr Lyn Jones and seconded by Cllr Des Davies.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

9. Correspondence:

140	Ceredigion Family Information Service	Poster "Become a Registered Childminder in Ceredigion"	The poster has been displayed in the Noticeboard at Gwbert.
141	Mrs M. Davies	Copy of letter of complaint regarding the noise coming from the "Colour Festival" held at Penyparc on 3 July.	The Clerk has been requested to reply to Mrs Davies that the contents of her letter has been noted,
142	Cardigan Town Council	Letter inviting two Ferwig Community Council members to a meeting held with the Police Commissioner of Dyfed-Powys, Dafydd Llywelyn, Tuesday 1 November at the Council Office, 36 Pendre, Aberteifi am 6.00yh.	Cllr Ann Stokoe stated that she would be attending. Clerk to remind Council members at the October meeting.
143	Rob Connolly (Network Solutions Manager for Swansea & West Wales)	E-mail received stating that the overhead repair team had visited Llys y Geiniog and have replaced the fallen cable highlighted in the Council's letter.	See Item 5(a)
144	Hywel Dda University Health Board	Posters advertising a series of "Big Conversations" at communities across Carmarthenshire, Ceredigion and Pembrokeshire.	Posters have been displayed in the noticeboard.
145	Mark Williams MP	Poster regarding surgeries during September and October.	Posters have been displayed in the noticeboard.
146	Grant Thornton, Auditor General for Wales	Annual Report for the financial year 2015-16 has been registered by the auditors.	The "Notice of Conclusion of Audit" for the year ending 31 March, 2016 has been displayed in the noticeboards for 14 days from 31 August 2016.
147	Mr Iestyn Evans, Senior Reserves Manager, Natural Resources Wales	E-mail confirming that the tree at Patch will be removed as soon as possible.	See item 5(b)
148	Age Cymru Ceredigion	Request for financial support	To be discussed at the October meeting.
149	Miss Bronwen Morgan (Chief Executive)	Response to Council's letter making enquiries regarding the fact that the Welsh is secondary to the English on the Referendum voting papers.	Noted.
150	Friends of Ceredigion Museum	Request for financial support	To be discussed at the October meeting.

CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

10. Other Matters:

(a) The following matters were discussed:

- (i) **The damage to the salt/sand container at Heol y Felin:** The County Council has rectified the damage.
- (ii) **Caravans parked in Penyparc.** The Clerk has requested directives from the planning authority regarding the legality of parking caravans in built-up areas of the village.
- (iii) **Concerns regarding an out of control dog in Penyparc.** The police have dealt with the problem.
- (iv) **Gŵyl Crug Mawr.** The Clerk was asked to congratulate Cllr Richard Jones following the success of the recent music festival held on his land.
- (v) **“Public footpath” notice.** The Clerk to further contact Mr Nigel Nicholas regarding the placing of signs on the pathway between the A487 main road and Dolwerdd estate.
- (vi) **“30mph” sign near Ystafell Berkley in Penyparc.** The Clerk to request the highways department to clean the defaced sign.
- (vii) **Requests to Sgt Delme Jones.** Vehicles breaking the speed limit on the upper lane between Patch and the Golf Club; car hazardly parked near the Brongwyn junction in Penyparc. Sgt Jones agreed to deal with the issues.

11. Date of next meeting: 3 October (F)

Dates of Council Meetings for 2016: 7 November (YB) 5 December (F)

Dates of Council Meetings for 2017:

9 January (YB) 6 February (F) 6 March (YB)

3 April (F) 8 May (YB) 5 June (F) 3 July (YB)

4 September (F) 2 October (YB) 6 November (F) 4 D (YB)

Denotes: F = Ferwig Old School. YB = Ystafell Berkley. AGM = annual General Meeting